
# Llên natur

**Bwletin 148**
**Mehefin 2020**

*I'r hen a'r ifanc*

**Cylchgrawn amgylcheddol Cymraeg i'r teulu cyfan ac athrawon**

**Mae pob un eitem mewn piws yn ddolen i fwy o wybodaeth**



**Llun:**

**Hefin Owen (Llanberis)**

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia


Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

**(Rhif Elusen: 1126027)** Cymdeithas Edward Llwyd

## Nadroedd Crimea








Wedi synnu wrth weld neidr werdd/neidr y wair ar lwybr ar ochr Bwlch y Gorddinan (Crimea) 25.04.20, meddwl bysa fana rhy uchel a sych iddynt..??

**Meg Thorman**

Faswn innau wedi dweud hynny hefyd. Tybed ydi hwn yn safle newydd i'r neidr wair? **Gol.**

## Sgrechod Pentraeth



[Sgrechod] or rardd i Mhentraeth traeth coch,,, Mis Mai oedd hein a 3 ciw a mam dwi meddwl

**Owain Thomas**


Dyma godi holl gofnodion yn cyfeirio at 'jays' (lluosog) yn y Tywyddiadur. Mae'r cofnodion yn canolbwntio fwyaf ar fewnlifiadau o adar o'r cyfandir yn yr hydref, sy'n amherthnasol dwi'n meddwl i'r cofnod hwn.

**Blynyddoedd sgrechod: 2012, 1983, 1972, 1947, 1934-35.**
Hydref 1935 Cognac, De orllewin Ffrainc Brit Birds Chwefror 1936: *The first movements were noticed here on September 25th. frequently in this country that a certain number of Jays leave their breeding places in the autumn to go and feed on acorns and beech-mast in more densely-wooded neighbouring areas. However, during the first days of October, 1935, there was a marked increase in the numbers of Jays flying overhead in a southerly direction. On October 8th, the sky being*

## Ceisiwch a chwi a gewch?

Dyma roi prawf ar y rhyfeddol app o'r enw SEEK i adnabod pob math o fywyd gwyllt o lun neu drwy eich camera ffôn. Mae'n honni bod yn gywir ond ddim pob amser i lefel rhywogaeth. Dyma un enghraifft o ryfeddod - adnabod larfa chwilen (i lefel is-deulu ). Lawrlwythwch yr app






Dim wedi gweld un o'r rhain o'r blaen. **Joanne Louise**

Llwyth ohonynt ar hyd ben yr allt lan y môr yn Nefyn. Larvae y Red Nosed Beetle [chwilen waed]. Nes i erioed sylwi arnynt o'r blaen. **Dei Rees**



Welais i un sawl wythnos nôl [dechrau Mai 2020] wrth gerdded llwybr arfordir Nefyn hefyd. **Naomi Wood**

## Oriawr y bugail



Pwllheli 3 Mai 2020 Bethan Vaughan Davies


Llysiau'r cryman (*Anagallis arvensis*). Hefyd, gwlyddyn Mair, coch y tywydd ag oriawr y bugail. Wedi ceisio cael llun da o hwn lawer gwaith, ond methu hyd yn hyn. **Iwan Roberts**

## Ffrwyth yr had chwyn



Yn ddiweddar, tydw i ddim wedi bod yn chwnnu'r llwybr concrit, craciog o ddrws y ty tuag giat y lon. O ganlyniad, mae Dant y llew, Llygad y dydd, Briallu a 'chwyn' arall yn tyfu yn y cracia. Ac o ganlyniad i hynnu braf oedd cael gweld ceiliog a iar Coch y Berllan yn bwyta had y chwyn dyddia dwetha ma.


## Ffrwyth y *locdown*



Ebrill 25ain, Rhuthun. Yn arferol, fase'r llain yma ger fy nghartre wedi cael ei dorri erbyn hyn. Hyfryd gweld dant y llew, blodau'r gog a'r gorthyfail yn cael llonydd eleni.

**Iwan Roberts**

## Onnen yn deilio o flaen y dderwen?





Neges gan Gareth Howells o Sir Fôn ar 6 Mai:


*"Thought you might be interested in the attached photo of an oak tree in our lane which is in front of an ash on the other side. I have photos taken last year and 2017 also showing the oak coming out first.*

*According to the Woodland Trust, ash leafing before the oak has occurred only four times in the last 44 years. Ash appears to be more responsive to the length of the day in spring, while oak is more responsive to temperature. So, with warmer springs, oak is having the advantage. We are certainly getting a splash not a soak this year.*

*I first read about the reasons for the timing of flushing of oak and ash in the Times last year when the Weather Editor who writes every day about facts & events related to weather wrote about this. Its amazing that he finds something interesting to write about nearly every day."*

Pa bedair o flynyddoedd tybed y deilodd yr onnen gyntaf yn ôl Coed Cadw.... Meddai Coed Cadw: *The last time the ash came first was 1986. This year, again, the oak beat the ash."* Trafodwyd hwn eisioes ym Mwletin 64 (tud. 4)

## Rhith aderyn - digon seimllyd!



Llun/ol aderyn ar ffenest fy nghartref - yn amlwg mae plu yn bethau gweddol seimllyd.

**Gwyn Williams ..**

Y traed hyd yn oed wedi gadael eu hôl!

## Hoedledd y cen - arbrofion Iwan Williams







Mae Duncan wedi bod yn hefru arnaf (gofyn unwaith ychydig o flynyddoedd yn ôl) i dynnu llun arall o'r graffiti hwn [chwith] ger Llanbedr Dyffryn Clwyd - i weld pa mor gyflym mae cen yn tyfu. Wel araf deg iawn - fel y gwelwch - dros gyfnod o 13 mlynedd.




Ond nid felly i bob un math o gen meddai Iwan Gwyn:

'Cen yn tyfu ar lythrennau arwydd yn Rhuthun heddiw'.



**YR ARADR**
**Lle tyrr awch ei chwlltwr hi–groen y tir**
**Bydd grawn teg yn tonni,**
**A maes o aur trwm ei si**
**Yma adeg y medi.**

***Alun Jones (Cilie)***

**Bu Gareth Pritchard yn rhannu englynion natur efo ni ers mis neu ddau.**

'Nid ar redeg mae aredig' meddai'r hen ddihareb! Wel, doedd dim rhaid poeni'n ormodol am hynny erstalwm! Beth mae hynny yn ei olygu i chi, heddiw? .

Englyn gan Alun Jones, un o 'Fois y Cilie' sydd yma.

**Ysgogodd ambell gerdd arall:**

Draw ar y rhos mae aradr yr oesau
Eto'n teilwrio'r hen bentalarau,
Yn gwysi dyfnion y gesyd ofnau
Y gaeaf oediog a'i fil gofidiau,
Ac i'm golwg mae golau -- haul yr haf
Yn hollti araf ei glân gylltyrau"

**Dic yr Hendre (trwy law Harri Williams)**

**....a thrafodaeth ddiddorol am y gair *tonni***

Rhai wedi gweld yr yd yn siglo fel tonnau yn y gwynt, eraill wedi gweld y cnwd yn torri trwy groen (neu 'don') wyneb y pridd:

Yn ôl Huw Jones yn Cydymaith Byd Amaeth, tyndir yw tir glas heb ei aredig ers blynyddoedd, sef tir a^ hen groen, gwyndwn, tondir... mewn cyferbyniad i aredig sofl a thir tatws, swe^ds ayyb. Ton = croen (HJ). Rwan am y tro cyntaf dwi'n gweld y cysylltiad rhwng "tyndir" y Monwysion a "tonen" corslyd. **Llen Natur**

**Aled Williams:** Byddem yn cael ein rhybuddio i fod yn ofalus i osgoi'r donnen rhwng Llithfaen a Llwyndyrys tra'n crwydro a chware.

**Richard Gwyn Neale:** Cofio cymydog i mi ym Mhen Llŷn yn galw tir heb ei aredig yn tondir neu tyndir. Roedd o'n dewis darn o dondir i balu llain datws pob blwyddyn.

**John Pierce Jones:** Tyndir yn dir glâs heb ei droi, cofio rwan, mynd yn ol i eirfa fy magwraeth. Ond mi yda ni'n gwahaniaethu rhwng tyndir a tonan. Oeddwn ni'n cael fy rhybuddio rhag mynd i waelod un cae mi oedd na donen wlyb yno, fasa'n fy llyncu fi taswn ni'n torri trwy 'i chroen hi. Tyndir oedd tir glâs caled.

**Richard Parry Hughes:** Tyndir ydi cae wedi ei aredig am y tro cynta ers rhai blynyddoedd. LLŷn ac Eifionydd

**Luned Meredith:** Haearn donni - (un o'r tacla torri mawn)... di-donni ydi'r weithred (sef codi'r tywyrch cyn y torri).

**Dafydd Williams:** Yn ôl GPC un o ystyron tonni ydi ymchwyddo, brigo i'r wyneb.

**Llên Natur:** ia dyna'n union welish gynta yn yr englyn - torri drwy'r donn neu'r croen. Ond gogoniant barddoniaeth ydi bod tonni (tonnau) hefyd yn ddilys yr un pryd.

**Tecwyn Owen:** 'toni' yn englyn Alun Cilie yn cyfeirio at frig y gwenith, haidd, ceirch yn barod i'w gynaeafu ac yn plygu'n ôl a blaen gyda'r awel fel tonnau'r môr.

Sawl cyfeiriad yma gan y dyddiadurwr DO Jones o ardal Ysbyty Ifan at tonni/donni y tu ôl i'r linc yma yn y cyd-destun lladd mawn (tybed ydi ei "donni" yn dalfyriad o di-donni, sef tynnu'r croen):

**Am fwy o wybodaeth, cofiwch glicio ar y geiriau piws.**

## "Cyntafion " gwanwyn 2020

**Dyma grynodeb o rai o gofnodion 'cynta'r flwyddyn'** creaduriad a phlanhigion mae aelodau Cymuned Llên Natur wedi sylwi arnynt eleni hyd at ganol mis Mai. Wrth reswm nid yw'n gynhwysfawr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| glesyn cyffredin (gloyn) | Trefnant | 14 Mai | AW |
| brithyn godreog (gwyfyn) | Nefyn | 13 Mai | BVJ |
| gwalchwyfyn yr helyglys | Rhyd Ddu | 12 Mai | BH |
| carpiog y gors (blodyn | Clwt y Bont | 8 Mai | EKJ |
| "cyw strew" (cyw aderyn to o'r nyth) | Clydach,Cwm Tawe | 5 Mai | DL |
| brithribin gwyrdd (gloyn) | Moel Tryfan | 4 Mai | RW |
| gwyfyn y benfelen | Waunfawr | 26 Ebrill | SEW |
| pryfed Sant Marc | Llyn Maelog | 22 Ebrill | OW |
| craf y geifr (blodau) | Dolgellau | 18 Ebrill | HM |
| brych y coed (gloyn) | Waunfawr | 13 Ebrill | GB |
| tegeirian coch (blodyn) | Hwlffordd | 11 Ebrill | JJ |
| bwtsias y gog (blodyn) | Nanhoron | 7 Ebrill | NP |
| gwennol | Niwbwrch | 5 Ebrill | PrydH |
| grifft llyffant ffres | Bodffordd | 2 Chwefror | OW |

## ....ac un o "gyntafion" yr haf



Glesyn cyffredin
Llansannan SH9365
19/5/20 Dys Griffiths

## Gwanwyn y copogion?



- Wedi copï hwn o Wild Birds on Anglesey: "*WHAT the heck is happening, never seen this one ever. HOOPOE anyone 14th May 10.15am Pwll William, by the pond. On a farm building*". Roedd yna lun da efo fo.
- Sir Benfro 28 Mawrth (Ruth Humphries)
- Dw i'n bwy ar lethr Mynydd y Rhiw, Pen Llŷn ac wrth fynd i lawr y lôn fach o Aelrhiw tuag at Blas yn Rhiw ym mis Ebrill - yn fy nghar - gwelais aderyn anarferol iawn o'm mlaen i. Roeddwn ddigon ffodus cael tynnu llun sydyn efo'r ffôn bach cyn iddo hedfan i ffwrdd dros y cloddiau. Atodaf lluniau. Cawsom wynt o'r de-dwyrain am wythnos cynt a dw i'n meddwl mai hwn ydi'r rheswm a oedd yr aderyn bach druan ar goll!!

## Harddwch i gymryd eich gwynt...



Gwelais hwn ar ochr y ffordd fawr rhwng Rhuthun a Llanfair Dyffryn Clwyd heddiw [20 Mai 2020]


**Iwan Gwyn**


morwyn dywyll (*Calopteryx virgo*) - y fanw **Iwan Roberts**


# Gwanwyn gwlyb a sych 2020


Bu Robin Williams wrthi'n dadansoddi data tywydd mis Ebrill ardal Dyffryn Peris sef Gorsaf Dywydd Llanrug. Dewiswch safle Caernarfon ar y wefan yma. https://weather.atomwide.com/. Dyma Robin: “Mai 1af heddiw! Mis arall wedi mynd o 2020. Gobeithio cawn ni fwy o 'haul ar fryn mis yma' - a bod pethau'n gwella dros yr wythnosau nesaf. Mis Ebrill yn torri sawl record o ran y tywydd sych - fawr ddim glaw o gymharu a mis Chwefror a Mawrth !!! Mae'n rhyfedd meddwl yn ôl i'r llifogydd difrifol ar draws y wlad.


Rwyf wrthi'n gwneud crynodeb o ddata Mis Ebrill ! Gweithgaredd [addysgol] dadansoddi data sydd gennyf felly !!! Er mwyn i chi gael cymharu Mawrth ac Ebrill 2020 rwyf am gynnwys data'r dros y ddau fis ! Dyma sut mae pethau bore ma yn Llanrug.





**Dyma adroddiad tywydd misol (Ebrill 2020) Waunfawr, Huw Jones**

*Here follows my April weather report (it was the 2nd sunniest by the way)*

*Waunfawr station name*
*1981-2010 period of averages (IDEALLY 1981-2010) 20/04 year/month*

*16.3 mean max (C), +3.9 diff from av., 6.1 mean min (C), +1.7 diff from av., 11.2 mean, +2.8 diff from av. 23.1 high max (C), 23 date, 8.6 low max; 30 date, 11.3 high min, 18 date, -0.5 low min., 14 date , -3.9 grass min., 14 date*
*===================*
*30 rain total (mm), 32% of av., 8 raindays (no. of days with 0.2mm or more), 5 wetdays (no. of days with 1.0mm or more), 13.8 most in a day (mm), 29 date*

*Number of days with:*
*1 air frost (air min temp -0.1C or less), 5 ground frost (grass min temp -0.1C or less). 0 sleet/snow falling (in the UK from 0000-2400 GMT), 0 50% snow cover at morning observation hour, 0 thunder heard (in the UK from 0000-2400 GMT), 0 smallhail < 5mm diameter, 0 argehail >=5mm diameter, 0 fog at morning observation hour*

*SUNSHINE*
*212 total sunshine (hours), 4 sunless days*
*0900GMT is the time of morning observations*
*[yn cyfateb I nnn Kw - graff gyferbyn]*
***[parhad y golofn nesaf]***

*SOIL TEMPS*
*9.0 20cm mean, 9.4 30cm mean*

*WINDDATA*
*0 days with gale (10min mean wind 39mph/34kts or more)*

*Number of days with wind from*
*1 N, 1 NE, 7 E, 5 SE, 2 S, 3 SW, 3 W, 4 NW, 4 calm, 40 max gust mph, 5 date*

*61% cloud cover at 0900 GMT 4% mean RH at morning observation (0900 GMT) 26 (W) no. of clock hours with 0.2mm or more 2 frost duration (hours) 1017.2 mean pressure (mb) at 0900 GMT ONLY 1030 max pressure at any time of day 14 date 85 min pressure at any time of day 30 date*


*==================================*
*DAILY and MONTHLY STATION NOTES*

*Daily: 24th- First cuckoo heard, about on time for this location.*
*Monthly: 2nd sunniest April here with 212 hours sunshine, after April 2007 when 230 hours of sunshine were recorded.*

*3rd warmest April at 11.2C, after the warmest April 2011- 11.6C and 2nd warmest 2007- 11.3C. Since 2016, each successive April has been warmer than the previous one.*

*3rd driest April with 30mm, after driest April 1997- 24mm and 2nd driest April 2010- 25mm.*

**Dyma fesur “heulwen” fel Kw. o drydan** (NID oriau o heulwen, sef y mesur arferol - procsi ydi hwn) a gynhyrchwyd gan set o baneli solar yn Waunfawr am 4 mis cynta’r flwyddyn 2012-2020 (diolch i Dafydd Owen). Sylwch mai Ebrill eleni yw’r uchaf.







Tipyn o wahaniaeth yn y tywydd rhwng ddoe a heddiw yn Deganwy 22/05/20. **Margaret Roberts**

**Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk**


## Straeon Pengamfa Greta Huws



Pengamfa Mr Hughes - ymestyn am ddeilen blasus





Dic Pengamfa yn hogi'r bladur hefo stric hogi, a thorri rhedyn yng Nghae Person. Sylwch ar leoliad y stric yn yr ail lun. Pren oedd gwneuthuriad y stric a bu'n rhaid taenu saim a thywod drosto iddo weithio fel hogwr. Lle oedd Dic yn cadw'r saim tybed?



## Pryfed y mis

Tregarth, 17 Mai 2020 *Scatophaga stercoraria*? **Dominig Kervegant**





Lindysen y CRYNWR GWRIDOG ydi hwn (uchod). Mi ddodwodd y fam ei hwyau yn nhrap Bruce Hurst yn ardal Beddgelert mis diwethaf, ac fe lwyddodd Bruce i'w magu ymlaen mor bell a hyn. Mae'r llun yn werthfawr am y ffaith ein bod yn gwybod (nid tybio) pa lindysen ydio. **Mewnosodiad: Wicipedia**



# Clwb y Llygaid Bach


## GLÖYNNOD BYW 3
### IEIR BACH YR HAF
### PILI PALA
**Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd**



**1. Gweirlöyn y perthi**
Glöyn perthi a chloddiau. Yn hedfan yng Ngorffennaf ac Awst ac fe'i gwelir yn aml ar flodau mieri. Mae'r uwchadenydd yn frown a darnau oren arnynt a phâr o 'lygaid' bach ar yr adain flaen. Gwair fydd y lindys yn ei fwyta.



**2. Gweirlöyn y glaw**
Fe'i gwelir mewn llecynnau glaswelltog ble bydd yn hedfan yn ystod Mehefin a Gorffennaf. Ar y gwryw mae'r adenydd brown yn dywyllach a nifer y 'llygaid' yn amrywio'n fawr. Gwair yw bwyd y lindys.



**3. Gweirloyn bach y waun**
Gweirlöyn cyffredin ym Mhrydain ac Iwerddon, ond yn fwyaf niferus yn ne Cymru a de Lloegr. Mae'r lindys yn bwyta gwair a gwelir yr oedolion mewn dolydd, twyni tywod a gweundir. Dau ddeoriad a bydd yn hedfan ym Mai a Mehefin, Awst a Medi.

**4. Glesyn y celyn**



Mae'n edrych yn lliw arian pan fo'n hedfan ac anaml y gwelir yr uwchadenydd glas tywyll. Wrth orffwys, gwelir lliw gwyn a smotiau du dan yr adain. Ceir dau ddeoriad, y naill yn hedfan yn Ebrill a Mai ac yn dodwy ar goed celyn, a'r llall yn hedfan yn Awst a Medi ac yn dodwy ar eiddew.

**5. Gweirlöyn brych**



Cyffredin yn y de, yn lledaenu tua'r gogledd. Hoff o goedwigoedd collddail agored. Uwchadain frown dywyll â smotiau melyn a 'llygaid' duon. Cochfrown dan yr adain. Gwair yw bwyd y lindys. Bydd dau ddeoriad. Yn hedfan Ebrill–Mehefin, a Gorffennaf– Medi.

**6. Mantell garpiog**



Adenydd carpiog anarferol. Lliw brown a siâp 'c' gwyn o dan yr adain. Mae'r uwchadain yn orenfrown â marciau tywyll. Yr oedolion yn gaeafgysgu a cheir dau ddeoriad. I'w gweld rhwng Mawrth a Medi. Danadl poethion, coed llwyfen a hopys yw bwyd y lindys.

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 1 | | | 15 |
| 2 | | | 15 |
| 3 | | | 25 |

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 4 | | | 15 |
| 5 | | | 15 |
| 6 | | | 10 |